Donegal

Mae pob siwrne yn daith o brofiad
Mae pob profiad yn siwrne ddrud
Mae pob milltir yn cynnig cyfle
I werthfawrogi pob eiliad sy'
Yn Donegal

Os oes cwmwl yn bygwth cawad
Mae pob cwmwl yn cuddio haul
Mae pob tro yn cuddio safle
Man i eistedd a syllu draw
At Donegal.

Mae llyn tawel rhwng y brynie
Blodau'r eithyn yn felyn aur
Lle fu'r elyrch yno'n gorffwys
Ar eu siwrne tua'r haul
Dros Donegal.

©Geraint Griffiths 1991.